

MODEL 1- AML-DDISGYBLAETHOL

Defnyddir y model hwn gyda Blwyddyn 4 sef yng Nghyfnod Allweddol 2. Bwriad y model yw defnyddio un profiad neu thema i ehangu dealltwriaeth a pherfformiad y disgyblion (Barnes, 2015, tud 70).

✓

MANTEISION Y MODEL

- Ffordd i’r disgyblion ddysgu mewn ffordd wahanol (Open University, 2019, tud 7)- ‘If a child can’t learn the way we teach, maybe we should teach the way they learn.’ (Ellingson, 2016, tud 25)
- Datblygu sgiliau meddwl beirniadol trwy ddysgu o brofiad newydd (Open Learn, dyddiad anhysbys)
- Rhoi’r cyfle i’r disgyblion dderbyn addysg fwy cyfoethog a diddorol (Adeyemi, 2010, tud 12).

✗

ANFANTEISION Y MODEL

- Diffyg amser i drefnu a gweithredu’r gweithgareddau (Tang a Hsiao, dyddiad anhysbys)
- Asesu ac adfyfrio ar waith eu hunain yn anodd oblegid gall llawer o sgiliau a meysydd dysgu gael eu datblygu (Leeming, 2017).
- Rhaid cael cyfathrebiad cyson i sicrhau bod y model yn llwyddiannus. Efallai ni fydd pob disgybl yn cymryd rhan (Gaille, 2018)

GWEITHGAREDDAU O FEWN 1 WYTHNOS

Gan fod y Nadolig yn nesáu, gwelir pwysigrwydd addysgu’r disgyblion am bwysigrwydd ‘rhoi’ yn hytrach na ‘derbyn’ yn unig. Bydd y disgyblion yn gweithio gyda’i gilydd, fel pwysleisia Llywodraeth Cymru (2017, tud 11), i gefnogi Cynllun Plentyn Nadolig. Gwelir arfer da o hyn yn Ysgol Bontnewydd (Estyn, 2017, tud. 7).

Llythrennedd- (Sesiwn 1)
Sgil: Darllen- Disgyblion yn ‘llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol’, fel y dywed yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (2003).
Rhwydd yr athro cerdyn wybodaeth i’r disgyblion gan gynnwys oedran a rhyw’r plentyn byddant yn noddio o wlad arall.
Cymhwysedd Digidol- (Sesiwn 1)
Sgil: Byddant yn ‘dod o hyd i wybodaeth briodol gan ddefnyddio gwahanol allwedddeiriau a thechnegau chwilio’ (Fframwaith Cymhwysedd Digidol, 2003).
Defnyddia’r disgyblion iPads a chyfrifiaduron i ymchwilio am syniadau o anrhegion posib ac i ddechrau cynllunio a chreu’r bocsys.


Rhifedd- (Sesiwn 2)
Sgil: ‘dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas’ (Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, 2003)
Disgyblion yn mesur maint eu bocsys trwy ddefnyddio’r offer priodol megis pren mesur. Byddant yn cymharu maint eu bocs nhw gyda bocs eu ffrindiau.

Llythrennedd- (Sesiwn 3)
Sgil: ‘gwrandao’n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o’r prif bwyntiau’ (Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, tud)
Diwedd yr wythnos- Cyflwyna’r disgyblion eu bocsys i’r dosbarth trwy ddisgrifio’r broses ac adfyfrio’n onest. Trwy wneud hyn byddant ‘yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes’ (Donaldson, 2015, tud 29)

PAM DEWIS Y GWEITHGAREDDAU HYN ?

Un o’r prif elfennau o fewn y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (2008) yw Dinasyddiaeth. Byddai’r disgyblion yn datblygu eu sgiliau dinasyddiaeth trwy ddysgu am ddiol’r byd a sut i barchu crefyddau gwahanol gan ddefnyddio’r wê. Trwy wneud hyn byddant yn dod yn ‘ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a’r byd’ (Donaldson, 2015, tud 29).
Er bod pwyslais enfawr ar lais y dysgwyr yn ôl Donaldson (2015), penderfynir cael yr athro i arwain y dysgu yn gyntaf gan roi cerdyn wybodaeth i’r plant. Y rheswm dros wneud hyn yw creda Bruner (dyfynnwyd yn McLeod, 2019) bod sgaffaldio’r dysgu yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod y disgyblion ar y trywydd cywir. Efallai i wella’r wers y tro nesaf, rhoddir cyfle i’r disgyblion arwain y dysgu trwy greu cardiau gwybodaeth eu hunain er mwyn tyfu ‘yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog’ (Donaldson, 2015, tud 29).

CYFRIFOLDEBAU TRAWSGWRICWLAIDD



‘Cross curricular learning occurs when the skills, knowledge and attitudes of a number of different disciplines are applied to a single theme, problem, idea or experience’ (Barnes, 2015, tud 62) Er mai dyma’r diffiniad cyffredinol, dywed fod ‘na 8 fodel gwahanol o addysgu’n drawsgwricwlaidd sef Aml-ddisgyblaethol, Thema- Seiliedig, Symbolaidd, Hierarchaidd, Pwnc Unigol Trosglwyddadwy, Rhyng- ddisgyblaethol, Oportiwistaidd a Ffocs-dwbl.
Dywed Donaldson (2015, tud 38) ‘mae’n bwysig bod addysg plant a phobl ifanc yn cynnwys profiadau cyfoethog sy’n werthfawr ar eu pen eu hunain.’- Mae profiad/ thema yn ganolbwynt o fewn y ddau fodel felly dyma’r rheswm dros ddewis y modelau megis aml-ddisgyblaethol a thema-seiliedig, Cytuna Pound a Lee (2010, tud 53) bod cynllunio gwersi sy’n deillio o brofiad bywyd go iawn yn bwysig i blant.

Trafoda Donaldson (2015, tud 40) am bwysigrwydd i bawb addysgu’n drawsgwricwlaidd fel bod y disgyblion yn datblygu lefelau uchel o gymhwysedd. Creda hefyd bod pob rhan o’r cwricwlwm yn cysylltu â’i gilydd os caiff y cynllunio ei wneud yn gywir.

MEYSYDD DYSGU A PHROFIAD

Byddai’r gweithgareddau â ffocws o’r meysydd dysgu a phrofiad gan fod y cwricwlwm newydd wedi cael ei drefnu yn nól rhain (Llywodraeth Cymru, 2019, tud 7). Y rheswm dros ddewis i integreiddio nifer o’r meysydd yw oblegid datgana Llywodraeth Cymru (2019, tud 7) ‘Dylai’r dysgu fod yn gydlynol ac wedi’i gynllunio ar draws y meysydd dysgu a phrofiad gwahanol.’

Model 1
Celfyddydau Mynegiannol- Creu a chynllunio’r bocsys yn greadigol.
Iechyd a lles- Dysgu am blant y byd sy’n byw mewn tlddi
Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu- Cydweithio gyda’i gilydd i greu’r bocs
Dyniaethau- Dysgu am y wlad maent yn noddio
Mathemateg a Rhifedd- Mesur eu bocsys
Gwyddoniaeth a Thechnoleg – Defnyddio technoleg i ymchwilio am syniadau.

Model 2
Mathemateg a Rhifedd- Angen gweithio allan yr atebion i ddarganfod y cliwiau
Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu- Cydweithio mewn grwp i ddianc yr ystafell
Gwyddoniaeth a Thechnoleg- Defnyddio’r cyfrifiadur i adfyfrio ar eu profiad
Dyniaethau- Bydd cwestiynau am wledydd byddant wedi dysgu amdanynt yn codi yn ystod y gweithgaredd i brofi eu dealltwriaeth.

Y DYFODOL

Yn amlwg rydym yn byw mewn byd sy’n newid yn gyflym wrth ystyried bydd 65% o blant ysgol gynradd yn gweithio mewn swyddi sydd ddim yn bodoli eto (World Economic Forum, dyddiad anhysbys). Mae’r defnydd o dechnoleg felly’n hanfodol o fewn gwersi i sicrhau bod y disgyblion yn meithrin y sgiliau technoleg briodol. Ond rheswm arall dros gynnwys technoleg o fewn y ddwy fodel yw bod angen i blant ymarfer darllen bant o sgrin gyfrifiadur er mwyn eu paratoi ar gyfer y profion cenedlaethol. Mae’r disgyblion yn ymarfer darllen llyfr darllen ond maent yn cael eu profi ar sgrin gyfrifiadurol sydd ddim yn deg o gwbl. Er bod ymchwil yn pwysleisio bod dim profion, lle mae’r pwyslais ar asesu, mae ymarfer darllen bant o sgrin am nawr yn ffordd ymlaen. Mae Ysgol Gymraeg Bryn Tawe (Estyn, 2019) yn arfer da o hyn gan ei bod wedi hyfforddi staff newydd a ‘buddsoddi mewn i adnoddau digidol newydd i ddatblygu medrau digidol ei disgyblion.’ Credir dylid disodli’r model symbolaidd gan nad ydyw yn esiampl dda o ddull trawsgwricwlaidd oblegid nid yw cysylltiadau yn cael eu gwneud rhwng y pynciau. Yn ei le, dylid rhoi’r cyfle i’r disgyblion benderfynu ar fodel newydd o ddysgu’n drawsgwricwlaidd. Bydd angen rhoi digon o wybodaeth iddyn nhw a digon o amser i ymchwilio a meddwl, gyda chydweithrediad athrawon.

MODEL 2- THEMA- SEILIEDIG

Defnyddir y model yma eto gyda Blwyddyn 4 sef Cyfnod Allweddol 2 a’r thema dan sylw yw’r Nadolig. Defnydd o thema benodol yw ffocws y model hwn gydag amrywiaeth o bynciau yn deillio wrtho.

✓

MANTEISION Y MODEL

- Dyma’r ffordd fwyaf naturiol o ddysgu sydd yn sicrhau dealltwriaeth gan fod y disgyblion yn dilyn eu diddordebau- Chris (EdTechLens, dyddiad anhysbys).
- Mae hyn yn ffordd weithredol o ddysgu sy’n dda ar gyfer eu hymennydd (UKEssays, 2018)
- Mae’r dasg yn haws i ddeall gan fod y gwaith i gyd yn gysylltiedig â’r thema sy’n gwneud y dysgu yn fwy hwylus (Tussa’ diah et al, 2018).
- Thema yn ffordd effeithiol o ‘gyflwyno elfen o ddilyniant. (Donaldson, 2015, tud 15)

✗

ANFANTEISION Y MODEL

- Mae’r model yn gweithio’n fwy llwyddiannus gydag athro gwybodus a hyderus- felly efallai nad yw’n ddefnyddiol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso Barnes (2015, tud 69).
- Os ydyw presenoldeb disgybl yn isel, mi fyddent yn colli allan ar gysylltiadau (The Art of Learning, 2014)
- Gall y thema fod yn dopig hollol newydd i’r disgybl sy’n golygu mwy o amser yn dod i adnabod beth i’w wneud (Visual Compass, 2013)

GWEITHGAREDDAU YSTAFELL DDIANC

Dyma ddau weithgaredd i barhau dros ddiwrnod trwy blethu mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Cytuna Llywodraeth Cymru (2013, tud 9) gyda hyn trwy nodi ‘dylai disgywliadau llythrennedd a rhifedd gael eu hymgorffori... ar gyfer pob gwers.’ Cytuna Kirsty Williams (Jisc, 2019) trwy ddweud bod cymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb pwysig arall dylid addysgu mewn ysgolion, nid llythrennedd a rhifedd yn unig.

Rhifedd- (Sesiwn 1)
Sgil: Bydd angen i un grŵp ar y tro ddianc o’r ystafell trwy ddatrys problemau. Bydd yna gwestiynau rhifedd megis ‘Beth yw 6x4’ gan ddywed yn y cwricwlwm mathemateg dylai’r disgyblion ‘adnabod lluosrifau 2, 3, 4, 5, 6 a 10.’ (Cwricwlwm Cymru, 2018)
Bydd yna tair ystafell dianc ar gael ar gyfer grwpiau gwahanol, rhai yn haws na’r lleill fel nad yw’r grwpiau isel yn teimlo dan ormod o straen ac fel nad yw’n hawdd i’r disgyblion MAT.

Llythrennedd- (Sesiwn 1)
Sgil: Bydd angen i bob aelod ‘cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan’ (Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd,) gan fod cydweithio a thrafod yn rhan enfawr o ddianc yr ystafell.

Cymhwysedd Digidol- (Sesiwn 2)
Sgil: Ar ôl i’r grwp ddianc, bydd angen i’r grwpiau adfyfrio ar eu hamser yn yr ystafell a chreu siart ar gyfrifiadur trwy nodi eu teimladau. Cyfateba hyn â’r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (2011) megis ‘dechrau creu setiau data a thynnu gwybodaeth ohonynt ar ffurf tablau siartiau.’

PAM DEWIS Y GWEITHGAREDD HON ?

Creda Piaget (dyfynnwyd gan Cherry, 2019) bod angen profiadau ar blant er mwyn eu cymhwyso tuag at brofiadau newydd. Bydd y gweithgaredd yma yn gofyn i’r disgyblion tynnu wrth eu profiadau blaenorol er mwyn darganfod y cliwiau o fewn yr ystafell. Bydd hwn yn ffordd o brofi eu dealltwriaeth o’r gwersi ac mae hefyd yn ffordd hwylus o asesu dealltwriaeth eu hunain. Trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, byddai’r unigolion yn datblygu i fod yn ‘gyfranwyr mentrus, creadigol’ (Donaldson, 2015, tud 29). Trafoda Black a William (1998, tud 6) bod hunanasesu’n sgil hanfodol i blant 5 oed ac yn hŷn i ddatblygu er mwyn sicrhau llwyddiant, felly byddai’r disgyblion yn asesu eu gwaith grŵp ac unigol trwy gydol y gweithgaredd. Mae asesu gwaith eu ffrindiau hefyd yn ffordd o ddatblygu sgiliau a chytuna Robin Banerjee (Ted Talks, 2014) bod cymdeithasu yn holl bwysig er mwyn i’r disgyblion datblygu’r sgiliau priodol sydd angen ar gyfer bywyd go iawn.

Rhestr Cyfeirnod

- Adeyemi, D. (2010) 'Justification of a Multidisciplinary Approach to Teaching Language in Botswana' *The Journal of Language, Technology & Entrepreneurship*, 2(1), tud 12.
- Barnes (2015) *An introduction to Cross- Curricular Learning 3-14*. 3ydd Arg. London: Sage.
- Black, P a William, D. (1998) *Inside the Black Box: Raising Standards Through Classroom Assessment*. Llundain: Granana Learning.
- Cherry, K. (2019) *The 4 Stages of Cognitive Development*. Ar gael yn: <https://www.verywellmind.com/piagets-stages-of-cognitive-development-2795457> (Darllenwyd: Rhagfyr 1af 2019)
- Cwricwlwm Mathemateg (2018) Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/7cd157a6-2eb4-46c4-8e0d-af9d1b5f4f62/rhaglen-astudio-ar-gyfer-mathemateg.pdf> (Darllenwyd: Tachwedd 12 2019)
- Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Cymru: Hawlfraint y Goron.
- EdTechLens (Dyddiad anhysbys) *Five Reasons to Try Theme-Based Learning*. Ar gael yn: <https://www.edtechlens.com/blog/try-theme-based-learning> (Darllenwyd: Tachwedd 15eg 2019)
- Ellingson, K. (2016) *Interactive Technology Use in Early Childhood Programs to Enhance Literacy Development & Early Literacy Development for Children with Cochlear Implants*. Ar gael yn: http://repository.stcloudstate.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1004&context=cfs_etds (Darllenwyd: Tachwedd 20 2019)
- Estyn (2017) *Adolygiad Ysgol Gynradd Bontnewydd*. Cymru: Hawlfraint y Goron.
- Estyn (2019) *Datblygu medrau digidol disgyblion*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/datblygu-medrau-digidol-disgyblion> (Darllenwyd: Rhagfyr 12 2019)
- Fframwaith Cymhwysedd Digidol (2008) Ar gael yn: [https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-cymhwysedd-digidol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/#eyJpljpbeyJhljoxfv0slmMiOlt7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjF9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH1dfQ==](https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-cymhwysedd-digidol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/#eyJpljpbeyJhljoxfv0slmMiOlt7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjF9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH1dfQ==) (Darllenwyd: Rhagfyr 1af 2019)
- Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (2008) Ar gael yn: [\(Darllenwyd: Rhagfyr 1af 2019\)](https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/#eyJpljpbeyJhljoxfSx7ImEiOjB9XSwiYyl6W3siYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MX0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9XX0=)

- Gaille, B (2018)- *11 Multidisciplinary Team Advantages and Disadvantages*. Ar gael yn: <https://brandongaille.com/11-multidisciplinary-team-advantages-and-disadvantages/> (Darllenwyd: Tachwedd 20 2019)
- Jisc (2019) *2030 vision for education in Wales*. Ar gael yn: <https://www.jisc.ac.uk/news/2030-vision-for-education-in-wales-04-jul-2019> (Darllenwyd Tachwedd 25ain 2019)
- Leeming, J. (2017)- '[Multidisciplinary research: pros and cons](http://blogs.nature.com/naturejobs/2017/09/11/multidisciplinary-research-pros-and-cons/)', *Nature Jobs* [blog]. Medi 11. Ar gael yn: <http://blogs.nature.com/naturejobs/2017/09/11/multidisciplinary-research-pros-and-cons/> (Darllenwyd: Rhagfyr 12 2019)
- Llywodraeth Cymru. (2013) *Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.
- Llywodraeth Cymru. (2017) *Education in Wales: Our national mission Action plan 2017–2*. Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf>. (Darllenwyd: Tachwedd 11eg 2019)
- Llywodraeth Cymru. (2019) *Canllaw i Gwricwlwm Cymru 2022*. Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/64353d33-3104-4466-8f4e-15d8cf938c5a/canllaw-i-gwricwlwm-i-gymru-2022.pdf> (Darllenwyd: Rhagfyr 10fed 2019)
- McLeod, S. (2019) *Bruner - Learning Theory in Education*. Ar gael yn: <https://www.simplypsychology.org/bruner.html> (Darllenwyd: Tachwedd 29 2019)
- Open Learn (dyddiad anhysbys) *Multidisciplinary study: the value and benefits*. Ar gael yn: <https://www.open.edu/openlearn/education-development/multidisciplinary-study-the-value-and-benefits/content-section-7> (Darllenwyd: Rhagfyr 2il 2019)
- Pound, L. a Lee, T. (2010) *Teaching Mathematics Creatively*. Routledge: Oxon.
- Tang, H. a Hsiao, E. (Dyddiad anhysbys) *The advantages and disadvantages of multidisciplinary collaboration in design education*. Ar gael yn: <http://design-cu.jp/iasdr2013/papers/1459-1b.pdf> (Darllenwyd: Tachwedd 19 2019)
- Ted talks (2014) What can we learn from children's peer relationships? [fideo]. Ar gael yn: https://www.youtube.com/watch?v=23p5n_vlJ9M&t=469s (Darllenwyd: Tachwedd 30 2019)

- The Art of Learning (2014) *Pros and Cons of Thematig Teaching*. Ar gael yn: <http://theartoflearning-bermingham.blogspot.com/2014/07/pros-and-cons-of-thematic-teaching.html> (Darllenwyd: Rhagfyr 14 2019)
- The Open University (2019) *Multidisciplinary study: the value and benefits*. Ar gael yn: https://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=21&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwjG-5OQtrrmAhVli1wKHTm_BkEQFjAUegQIAhAB&url=https%3A%2F%2Fwww.schooleducationgateway.eu%2Fen%2Fpub%2Fresources%2Ftoolkitsforschools%2Fsubarea.cfm%3Fsa%3D28&usg=AOvVaw0o7Rz0BLPpgRUv2ytTF1ld (Darllenwyd: Rhagfyr 2il 2019)
- Tussa'diah, H. a Nurfadillah, K. (2018) 'The Implementation of Theme Based Teaching to Improve Students' Achievement in Narrative Text' *The Knowledge E, Ebrill 10*. DOI: [10.18502/kss.v3i4.1946](https://doi.org/10.18502/kss.v3i4.1946). ar gael yn: <https://knepublishing.com/index.php/Kne-Social/article/view/1946/4348#info>
- [Ukessays](https://www.ukessays.com/essays/education/theme-based-teaching-when-teaching-children-education-essay.php) (2018) *Advantages of Theme based teaching when teaching children*. Ar gael yn: <https://www.ukessays.com/essays/education/theme-based-teaching-when-teaching-children-education-essay.php> (Darllenwyd: Tachwedd 12 2019)
- Visual Compass (2013)- *Advantages and Disadvantages of Using a Predesigned Theme*. Ar gael yn: <http://vcwebdesign.com/uncategorized/advantages-and-disadvantages-using-predesigned-theme/> (Darllenwyd: Rhagfyr 1af 2019)
- World Economic Forum (dyddiad anhysbys) *Chapter 1: The Future of Jobs and Skills*. Ar gael yn: <http://reports.weforum.org/future-of-jobs-2016/chapter-1-the-future-of-jobs-and-skills/> (Darllenwyd: Tachwedd 13 2019)